# Adolygiad o Ddosbarthau Etholiadol a Mannau / Gorsafoedd Pleidleisio 2023

# Dogfen Ymgynghori

Cyfnod ymgynghori yn para rhwng 9 Hydref ac 17 Tachwedd 2023.

## 1 Cefndir yr Adolygiad

Dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 a 2013, mae dyletswydd ar y Cyngor i rannu ei ardal yn ddosbarthiadau etholiadol a dynodi man pleidleisio ar gyfer pob dosbarth. Mae hefyd yn rhaid iddo barhau i adolygu'r trefniadau hyn. Gosododd Deddf Gweinyddu Etholiadau 2006 ddyletswydd ar bob awdurdod lleol ym Mhrydain i adolygu eu dosbarthiadau etholiadol a mannau pleidleisio.

## 2 Diffiniadau

Mae **dosbarth etholiadol** yn ardal ddaearyddol a grëwyd drwy isrannu ardal etholiadol, h.y. etholaeth, ward ardal neu adran yn rhannau llai.
Mae **man pleidleisio** yn adeilad neu ardal lle bydd gorsafoedd pleidleisio yn cael eu lleoli.
**Gorsaf bleidleisio** yw'r ystafell neu'r ardal o fewn y man pleidleisio lle mae pleidleisio'n digwydd.

## 3 Y Broses Adolygu

Mae'r Cyngor yn cyhoeddi hysbysiad eu bod yn cynnal yr adolygiad, ac yn ymgynghori â'r Swyddog Canlyniadau ar gyfer pob Etholaeth Seneddol yn ardal y Cyngor.

Mae'r Cyngor yna'n gwahodd sylwadau ar y cynigion. Bydd y papur ymgynghori'n cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor, a bydd hefyd yn cael ei anfon at Gynghorwyr, Aelodau Seneddol, Aelodau Cynulliad, Cynghorau Tref / Cymuned, pleidiau gwleidyddol lleol ac unrhyw grwpiau neu unigolion eraill sydd â chysylltiad, gan gynnwys y rhai sydd ag arbenigedd penodol mewn perthynas â mynediad i adeiladau neu gyfleusterau ar gyfer pobl sydd â gwahanol fathau o anableddau.

## 4 Yr hyn nad yw'r Adolygiad yn ei drafod

Ffiniau etholaethau seneddol, wards etholiadol a wardiau Cynghorau Tref / Cymuned yn Sir y Fflint.

## 5 Amserlen yr Adolygiad

| | |
|---|---|
| Cyhoeddi Hysbysiad o'r Adolygiad | Dydd Llun 9 Hydref 2023 |
| Dechrau'r Adolygiad | Dydd Llun 9 Hydref 2023 |
| Sylwadau i gael eu derbyn erbyn | Dydd Gwener 17 Tachwedd 2023 |
| Cyhoeddi sylwadau'r Swyddog Canlyniadau Gweithredol | Dydd Llun 20 Tachwedd 2023 |
| Dyddiad cau ar gyfer derbyn sylwadau'r cyhoedd ar sylwadau a chynigion y Swyddog Canlyniadau Gweithredol | Dydd Llun 11 Rhagfyr 2023 |
| Cyflwyno'r cynigion terfynol i'r Cyngor | Dydd Mawrth 24 Ionawr 2024 |
| Daw'r trefniadau diwygiedig i rym | Dydd Iau 1 Chwefror 2024 |

## 6 Nod yr Adolygiad

Mae'r ddogfen ynghlwm yn amlinellu manylion y dosbarthiadau etholiadol a mannau pleidleisio presennol ar gyfer pob un o'r wardiau etholiadol yn Sir y Fflint.   Mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi cydweithrediad y mannau pleidleisio sy'n darparu eu hadeiladau am y diwrnod er mwyn i etholwyr gael lle cyfleus i bleidleisio.

Nod yr Adolygiad yw mynd i'r afael â materion sydd wedi codi, naill ai'n sgil cau adeiladau / y bwriad i gau adeiladau neu faterion a gododd yn ystod etholiadau diweddar a bydd hefyd yn cael ei hysbysu gan adborth staff gorsafoedd pleidleisio ac arolygwyr.

Yr egwyddorion a fydd yn sail i ymagwedd y Cyngor tuag at ddosbarthau etholiadol a mannau pleidleisio fydd:

(a) Cynnal neu wella, os oes angen, drwy gyfuno'r rhwydwaith presennol o ddosbarthiadau etholiadol er mwyn sicrhau hyd y gellir y caiff gorsaf bleidleisio ei neilltuo i bob dosbarth etholiadol o fewn ei ffiniau.
(b) Ceisio nodi mannau pleidleisio newydd mewn ardaloedd lle nad yw'r ddarpariaeth bresennol yn ddigonol.
(c) Sicrhau, cyn belled ag y bo'n ymarferol, bod mannau pleidleisio'n cynnig mynediad i bobl ag anableddau.
(d) Sicrhau bod gan bob etholwr gyfleusterau pleidleisio mor rhesymol ag sy'n ymarferol dan yr amgylchiadau.

## 7 Gwneud Sylwadau

Wrth wneud sylwadau, lle mae'r awgrym yn ymwneud â newid man pleidleisio, rydym yn eich annog i roi'r rhesymau dros hyn, ac awgrymu mannau pleidleisio eraill er mwyn caniatáu ymgynghori pellach  Yn yr un modd, rydym hefyd yn croesawu cefnogaeth i'r trefniadau presennol. Gallwch wneud hyn drwy lenwi'r ffurflen gyflwyno ar-lein neu lawrlwytho copi ar wefan y Cyngor [www.siryflint.gov.uk](http://www.siryflint.gov.uk)

Fel arall, gallwch ysgrifennu at:

**Gwasanaethau Etholiadol,**
**Cyngor Sir y Fflint,**
**Neuadd y Sir,**
**Yr Wyddgrug,**
**Sir y Fflint.**
**CH7 6NR**

E-bost: cofrestr@siryfflint.gov.uk

Cysylltwch â Lynn Phillips, Arweinydd Tîm – Gwasanaethau Democrataidd ar 01352 702329